

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

315 - Beirniadaeth Adolygu Ffilm BL 7, 8 a 9

Beirniad: Hywel Roberts

CYNTAF: Mary Poppins Returns – Lleucu-Haf Thomas

Adolygiad campus a graenus yma. Gwaith gwych yn trafod y plot, y cymeriadau, y gerddoriaeth a'r hanes i enwi ond rhai elfennau. Mi rydym yn clywed dy wir farn yn yr adolygiad yma heb ddweud llawer am y ffilm a'i ddifetha i bawb arall. Mae'n amlwg fod gwaith ymchwil wedi mynd mewn i hanes y ffilm yma a'i wreiddiau. Adolygiad gwych, llongyfarchiadau

ALL: Titanic – Awen Davidson

Dechrau gwych i dy adolygiad, gan roi'r, nid yn unig hanes y ffilm ond hefyd hanes y digwyddiad enwog yma inni. Dwi wrth fy modd dy fod wedi synopsis or' ffilm inni heb ddweud gormod, sef un o grefftau adolygiad da. Mae dy waith y ddisgrifiadol and yn llawn Cymraeg graenus. Beth am ychwanegu mwy am y sgript neu llif stori'r ffilm y tro nesaf yn dy farn. Dwi wir wedi mwynhau darllen dy waith. Llongyfarchiadau

TRYDYDD: Harry Potter and the Half Blood Prince

– Jasmine Hemmings

Adolygiad graenus a llawn gwybodaeth. Mae'r iaith sy'n cael ei ddefnyddio yn wych ac yn naturiol iawn. Mae'n wych cael clywed dy farn am gymeriadau'r ffilm ond mae angen bod ychydig yn oflaus o beidio dweud gormod am y stori i'r ddarllenwyr, sydd wrth gwrs yn annodd wrth drafod digwyddaiadu mewn ffilm. Gwych dy fod yn gallu trafod a disgrifio'r gerddoriaeth a sgript, beth am ehangu a thrafod gwisgoedd a setiau yn y dyfodol i ychwanegu mwy at dy waith gwych. Llongyfarchiadau ar ddarn o waith gwych.